

Sut mae grwpio disgyblion yn cael effaith are u
hyder a chymhelliant?

	Targed	Yr hyn yr wyf wedi'i wneud yn yr aseiniad hwn.
Targed 1	Ail-edrych ar systemau cyfeirnod Harvard i wella cyfeiriadau'n gyffredinol.	Yr wyf wedi sicrhau fy mod wedi darllen llawlyfr ynglŷn ar systemau cyfeirnod er mwyn sicrhau ei fod yn gywir.
Targed 2	Prawf ddarllen yn ofalus i osgoi mân wallau.	Yr wyf wedi sicrhau fy mod fy ngwaith yn cael ei rhoi trwy cysill a'i ail-ddarllen.
Targed 3	Ehangu'ch darllen.	Yr wyf wedi sicrhau fy mod wedi darllen gwahanol ddogfennau academaidd.

Cyflwyniad

Ffocws yr ymchwil hon yw darganfod os mae grwpio disgyblion, gan canolbwyntio ar eu gallu yn cael effaith ar eu hyder a chymhelliant wrth iddynt gyflawni gwaith mewn pynciau gwahanol. Yr wyf am weld os mae hyn hefyd yn cael eu heffeithio yn dibynnu ar y pwnc ei hunain. Gwelir bod hyn yn berthnasol i fy ysgol am fod disgyblion yn cael eu grwpio yn ôl eu gallu; na'i llai trwy setio am bynciau craidd a bandio am bynciau allgyrsiol. Bydd yr hyn yn cael eu hymchwilio i mewn i ddau bwnc gwahanol; Gwyddoniaeth ac Addysg Grefyddol. Wrth edrych ar ddau bwnc gwahanol bydd yn galluogi i weld os mae grwpio disgyblion yn y rhain yn cael effaith ar eu diddordeb ac yn y pendraw eu hyder a chymhelliant wrth gyflawni gwaith ac os mae yna ddulliau gwahanol ar gael er mwyn ceisio osgoi neu gryfhau effaith grwpio ar ddisgyblion.

Cyd-destun yr ymchwil

Yn fy nosbarth a dewiswyd mai yna llif o alluoedd gwahanol er iddynt gael eu lleoli mewn grŵp allu uchel. Wrth ystyried cyd-destun yr ymchwil mae'r pynciau yn cael effaith fawr ar y canlyniadau a gall cael eu cyflawni. Gwelir nifer o ddisgyblion y pwnc Addysg Grefyddol fel rhan amherthnasol o'u ddysgu yn yr ysgol. O ganlyniad i hyn mae nifer yn colli diddordeb yn y pwnc ac wrth iddynt gael eu grwpio yn ôl eu gallu mae'r rhai o allu gwan yn colli eu hyder a chymhelliant wrth eu gwneud. Nid yw hyn yn wir wrth ystyried Gwyddoniaeth fel pwnc. Oherwydd hyn, ein cwestiwn ymchwil yw 'Sut mae grwpio disgyblion yn effeithio ar eu hyder a chymhelliant?'

Llenyddiaeth

Er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth o'r ymchwil sydd wedi cael eu gwneud ynglŷn â grwpio disgyblion yn ôl eu gallu ac yr effaith maent yn cael yr wyf wedi edrych yn ddyfnach i mewn i'r llenyddiaeth sydd i gael ar yr hyn. Edrychais ymhellach i mewn i lyfrau, dogfennau llywodraeth a deunyddiau eraill ar-lein er mwyn gwneud hyn. Wrth grynhoi'r hyn y gwnaeth ddangos gwelir bod nifer o awduron ac ymchwilwyr eraill yn dweud bod grwpio disgyblion yn gallu cael amryw o effeithiau ar addysgeg. Mae hyn yn cael ei atgyfnerthu gan Kutnick (2005) wrth iddo ddweud bod grwpio disgyblion yn cael ei effeithio wrth iddo ddylanwadu ar gydarweithiau disgyblion ac yn y pendraw sut maent yn delio neu weld eu gwaith ysgol.

Mae sawl ymchwilydd yn mynnu am y rheswm dros grwpio yn ysgolion. Dywed Bruce Balow a James Curtin (1966) bod y pwrpas tu ôl i grwpio yn ôl gallu yw i ddisgyblion efo alluoedd uwch symud ymlaen efo'u waith heb gael eu cadw yn ôl gan ddisgyblion efo alluoedd mwy gwan. Mae hyn yna yn cael ei atgyfnerthu gan Franzis Preckel ac Anne

Frenzel (2010) sy'n dweud wrth grwpio yn ôl gallu mae llai o debygrwydd gan ddisgyblion o alluoedd uwch diflasu wrth wneud gwaith ac felly yn eu buddio. Er i hyn, mae ymchwilwyr arall yn dadlau nad yw hyn yn buddio pob disgybl ac oherwydd hyn mae'n magu annhegwch o fewn y system addysgu, yn enwedig disgyblion o alluoedd mwy gwan. Gwelir hyn yn bennaf yn waith Robert Slavin (1990) sy'n dweud, "...ability grouping has beneficial achievement effects for high achievers and detrimental effects for low achievers." Oherwydd hyn gallech ddadlau nad yw grwpio disgyblion yn ôl eu gallu yn magu hyder a chymhelliant pob disgybl ac y mae'n gallu cael effaith negyddol ar eu cynnydd yn yr ysgol.

Wrth ystyried yr uchod mae Adam Gamoran (2002) bod wrth i ddisgyblion cael i grwpio mewn i grwpiau yn ôl eu gallu bod eu lefelau llwyddiant yn dod yn fwy anghyfartal dros amser. Yn ôl Gamoran yn yr ystyr hon nid yw grwpio disgyblion yn ôl eu gallu yn cadw lefel cyson o gynnydd neu hyder a chymhelliant wrth edrych arno dros amser. Dadlau bod hyn yn cael ei effeithio yn bennaf gan yr athrawon sy'n cael ei phenodi i ddysgu disgyblion gallu uwch a disgyblion gallu gwan. Gwelir bod athrawon mwy profiadol sy'n cael i benodi i ddisgyblion galluoedd uchel er mwyn sicrhau llwyddiant uchel yn y dosbarthiadau. Yn wahanol i hyn, mae athrawon llai profiadol sy'n cael ei rhoi i ddosbarthiadau galluoedd isel am nad yw dysgu'r disgyblion yn cynnwys adnoddau mwy heriol. Mae hyn yna yn arwain at annhegwch o ran cyfleoedd i'r disgyblion hyn ac o ganlyniad mae eu hyder a chymhelliant wrth i'r flynyddoedd fynd yn ei flaen yn gostwng. Er i hyn, mae Ireson a Hallam (2001) yn dweud bod disgyblion yn ymwybodol o'r rhesymau tu ôl i gael eu grwpio yn ôl eu gallu. Roedd disgyblion yn gwybod bod ganddynt sgiliau a gallu cryf o fewn un pwnc i gymharu efo pwnc arall ac yn eu gweld yn ddefnyddiol i fagu eu deallusrwydd o'r pynciau.

Ond, wrth edrych i mewn i ddosbarthiadau gallu cymysg y mae yna bwyntiau positif a negyddol i'r hyn hefyd. Mae Gorman (2002) hefyd yn dadlau bod yna agweddau negyddol o gael dosbarthiadau galluoedd cymysg. Gwelir yr effaith fwyaf wrth iddo fynd yn fwy heriol a galed i gadw lefel her y tasgau yn uwch am y disgyblion sydd efo galluoedd uchel ond ar yr un pryd cadw'r gwaith ar y trywydd iawn am y dosbarthiadau cymysg. Er i hyn, gellir dadlau bod dosbarthiadau gallu cymysg yn gallu buddio pob disgybl yn y dosbarth wrth i ddisgyblion o gefndiroedd economaidd a cymdeithasol cymysgu efo'i gilydd ac wrth i'r disgyblion fwyaf galluog gwrthio cymhelliant a hyder disgyblion llai galluog i fyny. Mae Salvin yn ychwanegu at yr hyn gan ddweud bod disgyblion yn grwpio galluoedd yn dysgu fwy na disgyblion o ddosbarthiadau alluoedd gwan (1990). I wrthgyferbynnu'r uchod mae Rees, Brewer a Argys (2000) yn mynnu bod grwpio disgyblion yn ôl eu gallu yn hanfodol i lwyddiant y disgyblion wrth ystyried ei gwaith am iddo sicrhau bod pob disgybl yn ymwybodol ar beth maent yn dysgu am ac oherwydd hyn yn mygu deallusrwydd uchel o'r testun o dan astudiaeth. Er i hyn, mae ymchwil sydd wedi cael ei gwneud gan UCL Institute of Education (2018) hefyd yn

dweud bod grwpio disgyblion yn ôl eu gallu yn cael effaith negyddol ar yr hyn maent yn dysgu ac nad yw grwpio yn cynyddu eu llwyddiant yn ystod eu gyrfaedd ysgol.

Felly, wrth edrych ar y llenyddiaeth am sut mae grwpio disgyblion yn ôl eu gallu yn cael effaith ar eu hyder a chymhelliant gwelir bod yna safbwyntiau gwahanol ar yr effeithiau negyddol a phositif. Ar yr un llaw wrth grwpio yn ôl eu gallu mae'n annog bod disgyblion yn cael digon o her o fewn y pwnc ac ar y llaw arall nad yw hwn yn buddio pob disgybl, yn enwedig disgyblion o alluoedd mwy gwan.

Astudiaeth Gwers

Defnyddiwyd methodoleg o Astudiaeth gwers er mwyn cyflawni ein hymchwil. Mae Astudiaeth Gwers yn fath o ymchwil weithredol sy'n hanfodol wrth weld, yn y person cyntaf, sut mae disgyblion yn dysgu a sut gall athrawon gwella eu harfer o ddysgu o fewn y dosbarth. Mae hyn yn cael eu hatgyfnerthu gan Peter Dudley (2013), sy'n esbonio bod arsylwad gwers yw arsylwi gwers arferol sy'n digwydd er mwyn gweld sut mae disgyblion yn dysgu ac i ddarganfod sut all athrawon gwella dysgu. Wrth ddefnyddio astudiaeth gwers fel ffordd o gasglu data bydd yn ein galluogi ni i gael golwg cyntaf ar sut mae grwpio disgyblion yn ôl eu gallu yn cael effaith ar hyder a chymhelliant y disgyblion. Er i hyn, defnyddiwyd sawl dull o gasglu data er mwyn cwblhau ein hymchwil. Cynnwys y rhain yw, arsylwi, grwpiau ffocws a nodiadau adfyfyriol. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb wrth ystyried beth i gymryd sylw o yn y gwersi. Ynghyd efo hyn, bydd llenwi i mewn taflen arsylwad yn sicrhau ein bod yn gallu cadw cyfnod o'r hyn sy'n digwydd tu fewn y wers ac yn sicrhau cysondeb wrth ystyried gwybodaeth y bydd y fi a fy mhartner yn defnyddio. Yn benodol wrth arsylwi, ni fyddwn yn arsylwi'r athro yn dysgu'r disgyblion am fod pwrpas yr ymchwil yw gweld sut mae disgyblion yn ymateb i weithio mewn grwpiau efo disgyblion sydd o'r un allu ac os mae hyn yn cael effaith ar eu hyder a chymhelliant. Hefyd, oherwydd yr hyn ni fydd yr athro sy'n arsylwi yn cymryd rhan yn y wers, eu rôl bydd i eistedd yng nghefn y dosbarth ac i wyllo a nodi beth sy'n mynd ymlaen. Bydd hyn yn sicrhau nad yw'r wers yn cael eu darfu arno a hefyd tegwch. Wrth wneud hyn, y bydd yn galluogi i'r amgylchedd dysgu blaenorol aros yn gyson er mwyn buddio'r disgyblion. Yn ogystal ag hyn, wrth ystyried tegwch bydd yn sicrhau bod yr ymchwilydd arall yn cyflawni eu rôl mewn y ddwy wers a hefyd i sicrhau ni fydd yr ymchwil yn cael ei effeithio neu ddylanwadu gan ffactorau allanol.

Ffordd arall y byddwn yn casglu data yw wrth gyfweld efo chwe disgybl, tair o'r ddwy ysgol wahanol. Bydd y disgyblion yn cael ei ddewis o'r gwersi a defnyddiwyd. Oherwydd y nifer fach o ddisgyblion a chafodd eu cyfweld, mae rhaid bod yn ofalus ac ymwybodol bod nad ydy'r sampl yn un fawr ac oherwydd hyn nid yw'r cyfweiliad yn gallu dangos beirniadai

clir o feirniadau'r dosbarthiadau i gyd. Wrth ystyried cwestiynau'r cyfweiliad y bydd yn cael eu paratoi o flaen llaw gan sicrhau nad yw'r cwestiynau eu hun yn arweiniol y neu natur. Bydd hyn yn sicrhau bod y disgyblion yn ymateb i'r cwestiynau yn y ffordd y maent yn teimlo'n berthnasol ac nid yn y ffordd y maent yn credu bod rhaid ateb. Enghraifft o'r cwestiynau a chafodd eu gofyn yw, 'Beth ydy gweithio mewn grŵp yn ei olygu i chi?' a hefyd, 'Meddylwch yn ôl at y wers – Sut oeddech chi'n teimlo wrth gael eich gosod mewn grwpiau?' (Gwelir yn yr atodiadau). Cafodd y cyfweiliadau eu recordio er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a'r data sy'n cael eu hystyried yn gywir ac yn gyson i finnau a fy mhartner ymchwil. Gwelir bod recordio'r sesiynau hefyd yn lleihau'r pwysau ar y disgyblion wrth iddynt gael eu cwestiynu. O'r hyn, bydd yn galluogi bod y data yn ddilys ac yn wir i farnau'r disgyblion. Ni wnes i neu fy mhartner ymchwil cymryd nodiadau yn ystod y cyfweiliadau am iddo sicrhau amgylchedd anffurfiol a oedd gwneud i'r disgyblion teimlo fwy cyfforddus tu fewn. Eto, yr oedd hyn yn sicrhau atebion onest o'r disgyblion am nad oeddent yn teimlo o dan bwysau i ateb mewn ffordd a fydd yn plesio'r athrawon.

Yn olaf fe wnaethon adfyfrio ar yr astudiaeth gwers, yr arsylwi a'r cyfweiliadau. Yn ôl Knapp (1992) mae'n bwysig i athrawon i adfyfrio ar yr hyn maent wedi gwneud neu arsylwi mewn gwers er mwyn datblygu eu hymarfer yn bellach. Er mwyn gwneud yr hyn fe wnaethon ddefnyddio'r dull a thempled Beirniad wedi Adfyfrio (BWA). Fe wnes i a fy mhartner ymchwil dewis ar y dull hwn o adfyfrio am ein bod yn gyfarwydd efo'r cynnwys a sut i adfyfrio yn llwyddiannus wrth ddefnyddio'r dull. Yn ystod yr adfyfrio hon, fe wnaethon gymryd i mewn i ystyried ein hemosiynau a datrysiadau posib i'r gwersi a sut mae grwpio yn ôl gallu yn cael effaith ar hyder a chymhelliant y disgyblion. Ynghyd efo hyn, gwelir wrth fod yn gyfarwydd efo'r dull o adfyfrio yr oedd yn sicrhau fy mod yn gallu cysylltu'r data efo ymchwil a llenyddiaeth briodol. Yn benodol, mae'r dull hon o adfyfrio yn rhoi adlewyrchiad a gwelediad gwahanol i ni am y wers a sut gall cael ei wneud i wella ar yr hyn. Trwy wneud yr hwn y mae'n sicrhau ein bod yn gallu gwellhau ar ein gwersi ac yn yr ystyr hon y ffordd ydym yn grwpio disgyblion yn y dyfodol.

Ystyriaethau Moesegol

I sicrhau ymchwil teg a foesegol, gan leihau'r risg o niwed fel ymchwilydd y byddaf yn dilyn canllawiau Prifysgol Cymru Drindod Dewi Sant. Hyn ydy, cod Ymarfer Moeseg a Integredd ymchwil y brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (2017). Ynghyd efo hyn, byddaf yn dilyn Polisi Rheoli data Ymchwil Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (2016). I ddilyn y rhain bydd rhaid iddo i sicrhau fy mod fy nata yn cael eu storio yn y lle cywir a'u fod yn cael eu dileu ar ôl i mi gwblhau'r ymchwil. Fel y nodwyd yn y Ffurflen Moeseg, bydd rhaid iddo i sicrhau bod y cyfranogwyr yn ymwybodol y maent yn gallu dewis peidio cymryd rhan yn yr

ymchwil os yw hyn yn ddymuniad ganddynt. Yn ogystal â'r canllawiau uchod byddaf yn sicrhau fy mod i yn ystyried ac yn dilyn y canllawiau a nodwyd gan y 'British Educational Research Association' (BERA 2018) gan sicrhau cyfrinachedd y cyfranogwyr a'r ysgolion ymhlith yr ymchwil. Er mwyn cadw at yr hyn, y byddaf yn cyfeirio at yr ysgolion fel 'Ysgol X' a 'Ysgol Y' a'r disgyblion fel 'Disgybl A/B/C'. Wrth wneud hyn bydd yn lleihau'r risg o ddarllenwyr yn adnabod y disgyblion neu'r ysgolion a wnaeth cymryd rhan.

Canlyniadau Astudiaeth Gwers 1 a dadansoddiad

Er mwyn gallu dadansoddi canlyniadau astudiaeth gwers yn drylwyr mae rhaid yn gyntaf edrych ar gyd-destun y dosbarth. Digwyddodd yr astudiaeth gwers hon efo dosbarth gallu cymysg blwyddyn 7 yn y pwnc Gwyddoniaeth. Cynnwyd y wers hon yn ystod yr awr gyntaf o'r dydd. Mae rhaid cymryd y ffactorau hyn mewn i ystyried wrth ddadansoddi canlyniadau'r wers.

Cafodd y disgyblion yn y dosbarth eu grwpio i mewn i dri grŵp gwahanol. Sail y wers oedd i ddisgyblion cymryd rhan mewn tasgau amrywiol ynglŷn ag egni. Cynnwys y tasgau hyn oedd tasg hwyl, tasg ar lafar a thasg ysgrifenedig. Wrth i ddisgyblion cwblhau'r tasgau hyn y neu dro a welir gwahaniaeth yn y grwpiau wrth ystyried eu hyder a chymhelliant. Ar ddechrau'r wers gwelir bod disgyblion yn ar duedd o 4 allan o 5 wrth ystyried eu hyder ac yna 5 allan o 5 wrth ystyried eu cymhelliant. Gwelwn fod yr arsylwad hwn yn newid wrth i'r wers fynd yn ei flaen. Er wnaeth hyder y disgyblion aros ar yr un raddfa erbyn diwedd eu gwers nid oedd hyn yn wir wrth ystyried eu cymhelliant. Gostyngwyd cymhelliant y disgyblion o 5 i 2 erbyn i'r awr ddod i ben. Gwelir bod nifer o resymau dros yr hyn ac nid oedd yn benodol yn effaith uniongyrchol o'r grwpiau rhoddir i mewn iddo. Enghraifft o'r hyn oedd y ffaith oedd y disgyblion yn y dosbarth yn cael egwyl hwyl er mwyn cyflawni'r wers, yn wahanol i'r ysgol gyfan.

Er i'r uchod gwelir bod disgyblion yn cael ei effeithio gan y grwpiau a rhoddir i mewn ac oherwydd hyn yr oedd hyder a chymhelliant yn ddisgyblion yn newid wrth ddibynnu ar ba dasg yr oedd angen iddynt gyflawni. Gwelir hyn yn bennaf wrth i ddisgyblion cyflawni'r dasg hwyl i gymharu efo'r dasg lafar. Roedd fwy o hyder a chymhelliant yn cael ei weld wrth i ddisgyblion gwneud y dasg hwyl ond wrth iddynt wneud y dasg lafar roedd eu hyder a chymhelliant yn gostwng. Enghraifft o hyn oedd efo grŵp 1. Wrth iddynt gyflawni'r dasg lafar fe wnaeth eu cymhelliant am y gwaith gostwng efo hanner y disgyblion yn y grŵp ond wrth iddynt gyflawni'r dasg hwyl gwelir eu cymhelliant yn tyfu eto. Wrth edrych ar yr hyn, ni welir bod grwpio disgyblion yn buddio pob disgybl yn y grŵp wrth iddynt gyflawni tasg nad oeddent yn mwynhau. Nodwyd y darganfyddiadau hyn yn y cyfweiliad efo'r disgyblion.

Fel y nodwyd uchod, gwelir barn y disgyblion yn y cyfweiliad wrth ystyried gwaith grŵp. Gwelir bod safbwyntiau disgyblion yn amrywio wrth ystyried gwaith grŵp. Dywed Disgybl B:

“Mae’n iawn os mae pawb yn cyfrannu. Os mae dim ond un person yn gwneud y waith ac mae neb arall yn mae e dim yn teg.”

Gwelir yr hyn yn digwydd yn y grwpiau gwahanol wrth i rai disgyblion colli cymhelliant a hyder llwyr wrth i un neu ddau berson cyflawni’r dasg i gyd. Cadwyd yr uchod i atgyfnerthu gan ddisgybl B wrth iddo ateb cwestiwn, ‘Ydych chi’n credu bod gweithio mewn grwpiau yn cael effaith ar eich gwaith?’

“Hanner a hanner. Os mae dim ond hanner y grwp sydd yn gweithio ac mae’r hanner arall dim yn canolbwyntio, bydd nhw dim yn heplu gwneud y gwaith.”

Gwelir gall hyn cael effaith ar hyder a chymhelliant disgyblion eraill yn y grŵp sydd eisiau cyflawni’r gwaith. Ond, er i hyn, fe wnaeth Disgybl Ac anghytuno efo datganiad Disgybl B gan ddweud:

“Os ti dim yn deall mae pobl yn gallu helpu ti so mae’n helpu.”

Oherwydd yr uchod, gellir dweud bod grwpio disgyblion yn gallu cael effaith da ar gymhelliant a’u hyder wrth iddynt fuddio o gael cymorth o’u cyfoedion. Er i hyn, gellir dadlau ni fydd hyn o fudd i ddisgyblion sy’n cael eu grwpio tu fewn i’r un gallu os nad ydy’r disgyblion i gyd yn deall y gwaith. Gath hwn eu datgelu can Disgybl B gan ddweud:

“Mae gweithio mewn yn grwp yn well os mae pawb yn weithio ar yr un lefel.”

Felly, wrth ystyried datganiadau disgyblion eraill gellir dweud bod eu barnau ar os mae cael eu grwpio yn ôl eu gallu yn cael effaith ar eu hyder a chymhelliant yn amrywio yn dibynnu ar safbwynt y disgyblion.

I ddadansoddi’r wers, (gwelir atodiad o’r ffurflen BWA) fe deimlaf wnaeth y disgyblion ymateb yn wahanol i’w gilydd, yn bennaf wrth ystyried sail y tasgau yr oeddent yn cyflawni fel grwpiau. Roedd sail y dasg yn cael effaith pwysig ar lefelau hyder a chymhelliant y disgyblion yn y dosbarth. Ond, wrth i’r wers fynd yn ei flaen gwelir bod disgyblion yn gwahanu eu hunain i mewn i grwpiau bach o fewn y grŵp, cafodd hyn effaith mawr wrth ystyried cymhelliant am ei fod yn amlwg yr oedd yn gwahanu eu hunain fesul ffrindiau. Er mwyn gwellhau ar yr hyn er mwyn i ddisgyblion allu buddio yn nhermau eu hyder a chymhelliant tu fewn i’w grwpiau bydd rhaid i’r athrawes sicrhau bod y grwpiau yn cael eu

cynllunio yn ofalus cyn i'r wers ddechrau. Bydd yn fudd posib i'r grwpiau cynnwys galluoedd cymysg er mwyn i'r disgyblion efo'r gallu fwyaf ceisio cryfhau hyder y disgyblion efo alluoedd gwan. Yn olaf, wrth ddadansoddi'r wers gall yr athro wedi sicrhau bod ddigon o amser i'r grwpiau i gyd cael cyfle i gyflawni pob tasg trwy gadw'r dasg hwyl fel tasg estynedig er mwyn gwthio cymhellant y disgyblion i fyny er mwyn cael ei gwneud.

Canlyniadau Astudiaeth Gwers 2 a dadansoddiad

Yn debyg i'r astudiaeth gwers gyntaf mae rhaid hefyd edrych ar gyd-destun dosbarth astudiaeth gwers 2 er mwyn gallu dadansoddi eu canlyniadau yn drylwyr. Roedd y dosbarth hwn wedi cael ei fandio i mewn i fand gallu uchel. Er i hyn, mae yna cymysg o alluoedd ynghylch y dosbarth. Mae hyder a chymhellant y disgyblion yn y dosbarth yn cael ei effeithio oherwydd hyn. Cafodd y wers Addysg Grefyddol ei ddysgu trwy'r cyfrwng Saesneg.

Yn ystod y wers cafodd y disgyblion i grwpio mewn i grwpiau o bedwar neu bump er mwyn cyflawni nod y wers. Nod y wers oedd i ddisgyblion ail-ddrafftio eu tasgau asesu ac i gyflawni ymchwil ar storiâu creu gwahanol nad ydynt wedi astudio o flaen. Yr oedd y tasgau hyn yn dda wrth ystyried cymhellant a hyder y disgyblion efo'r gwaith am iddo ddangos deallusrwydd y disgyblion a hyder a chymhellant wrth iddynt gyflawni'r gwaith. Roedd y tasgau yn seiliedig ar yr hyn maent wedi dysgu o flaen yn nhermau'r cyd-destun, ond oedd yn annog ac yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnwys wrth ddysgu rhywbeth newydd.

Gwelir yn ystod y wers bod hyder y disgyblion yn aros yn weddol gyson yn ôl y raddfa ond mae cymhellant y disgyblion yn gostwng. Wrth edrych ar yr hyn gwelir bod hyder y disgyblion wedi cael ei nodi fel 5 allan o 5 ar gychwyn y wers ond mae dim ond yn gostwng i 4 erbyn ei diwedd. Nid yw hyn y stori am gymhellant y disgyblion wrth iddo ostwng o 4 allan o 5 ar gychwyn y wers i 2 allan o 5 erbyn ei diwedd. Gwelir bod hyn yn digwydd oherwydd sawl rheswm yn cynnwys, dylanwad disgyblion eraill yn y dosbarth, eu diddordeb yn y dasg a'u personoliaethau. Gwelir y dylanwad fwyaf wrth i rai disgyblion colli hyder a chymhellant yn gyflymach ac yn dechrau tarfu ar ddisgyblion eraill. Oherwydd hyn mae'r disgyblion eraill o'i gwmpas yna yn colli awydd a hyder wrth gyflawni'r gwaith. Ynghyd efo hyn, gwelir bod wrth i'r wers fynd yn ei flaen roedd nifer o ddisgyblion yn colli awydd ac oherwydd hyn roedd diffyg canolbwytio. Gall hyn cael ei ystyried fel ffactor o gael ei grwpio gan ddisgyblion gydag un disgybl yn dweud,

“He’s doing what we have to do, we’re working as a group so I don’t have to do it.”

Gellir gweld hyn fel disgybl yn defnyddio gwaith grŵp fel rheswm i beidio gwneud eu gwaith. Gall hyn cael eu gwthio i nifer arall o ddisgyblion gyda nhw yna yn colli hyder a

chymhelliant wrth wneud gwaith grŵp am fod y disgyblion mwy galluog yn cymryd drosodd ac yn gwneud y gwaith. Ynghyd efo'r hyn, wrth gyfweled efo'r disgyblion o'r dosbarth gwelir bod eu safbwynt ar grwpio yn newid. Ond, mae'r datganiad uchod yn cael ei atgyfnerthu gan ddisgybl A yn dweud,

"Yeah I think I feel in groups that sometimes if there's like a really big group like five or four only like some people do the work and then the others like messing around and like they shouldn't be they should be discussing about the work and they should like help."

Gwelir bod y disgybl yn ceisio mynnu bod wrth i'r grwpiau o ddisgyblion tyfu mae mwy o siawns efo nifer ohonynt i golli hyder a chymhelliant am fod nifer y neu weld fel esgus i beidio gwneud y gwaith. Er i hyn, mae disgybl B yn hoff o waith grŵp wrth ddweud,

"I'd say it gives you a positive attitude towards the work because you know your like not fully doing it all independently and you have support if you need it."

Mae'r disgybl hon yn gweld grwpio fel gallu cymysg fel ffordd dda o weithio am mae mwy o bosibilrwydd i ddisgyblion eraill helpu ei gilydd wrth wneud eu gwaith. Ond mae disgybl B hefyd yn nodi,

"Um, I'd give it probably a 7, because sometimes you can or you are able to actually do some things in groups but other things you prefer to do it in solo."

Felly, wrth edrych ar gynnwys y cyfweiliad gwelir bod barnau disgyblion yn newid wrth iddynt ystyried gwaith grŵp.

Ar yr holl, wrth edrych yn ôl y wers gwelwn fod y disgyblion yn ymateb yn weddol yr un peth i'w gilydd. Er i hyn, gwelir bod nifer o ddisgyblion yn tarfu ar ei gilydd wrth wneud y gwaith ac felly yn effeithio ar hyder a chymhelliant i gyflawni'r gwaith. I ddadansoddi'r wers bydd rhaid gwahaniaethu'r disgyblion a'r gwaith yn fwy doeth er mwyn sicrhau bod hyder a chymhelliant y disgyblion yn aros yn gyson trwy gydol y wers. Yn olaf, bydd rhaid annog y disgyblion fwyaf wan yn eu gallu yn fwy er mwyn sicrhau eu bod yn buddio efo'r disgyblion fwyaf galluog wrth wneud y gwaith.

Canfyddiadau Ymchwil

Wrth wneud yr ymchwil hon fe wnes i ddarganfod bod yna sawl ffactor sy'n gallu cael effaith ar hyder a chymhelliant disgyblion wrth iddynt gael eu grwpio yn ôl eu gallu. Gwelir yn bennaf, bod y disgyblion fwyaf wan o fewn y dosbarth yn colli eu cymhelliant yn gyflymach

ac yn gadael y disgyblion fwyaf galluog i wneud y gwaith. Mae hyn yn cysylltu efo ymchwil Salvin (1990) sy'n awgrymu bod angen i ddisgyblion efo alluoedd fwyaf gwan cael fwy o amser ar y cyfarwyddiadau a'r pwnc eu hunain i ddeall yr hyn maent yn dysgu am yn llwyr. Gellir awgrymu bod yr her yn o lefel uwch ac oherwydd hyn nid oedd yn buddio pob disgybl yn y dosbarth.

Ynghyd efo uchod, gwelir bod, yn enwedig yn y dosbarth sydd wedi cael ei fandio, bod wrth iddynt wneud y gwaith mewn grwpiau nad oedd pawb yn cymryd diddordeb yn yr hyn yr oeddent yn ymchwilio. Gwelir bod rhaid dal gwahaniaethu yn nhermau'r dasg yn y dosbarth am fod galluoedd dal i fod yn gymysg. Felly, yn yr ystyr hon gellir dadlau bod angen i ddisgyblion, hyd yn oed yn fandiau gwahanol, cael gwaith a chyfarwyddiadau sy'n cyd-fynd efo eu galluoedd. Gwelir bod hyn yn cysylltu efo gwaith Garmoran (2002) sy'n dweud bod alluoedd disgyblion, hyd yn oed yn grwpiau o alluoedd uchel, yn dod yn fwy anghyfartal dros amser ac oherwydd hyn, nid yw'n posib grwpio disgyblion yn ôl eu allu yn hollol llwyddiannus.

Felly, wrth ystyried yr uchod, bydd rhaid cymryd yr hyn mewn i ystyried yn fy nosbarthiadau. Bydd rhaid canolbwyntio ar alluoedd cymysg o fewn grwpiau o alluoedd uchel ac isel a sicrhau bod y gwaith yn buddio disgyblion ac nid cael effaith dirywiol ar eu hyder a chymhelliant. Er mwyn gwneud yr hyn, bydd rhaid ystyried efallai bydd rhai disgyblion yn gweld testun o fewn y pwnc yn fwy anodd na thestun arall ac oherwydd yr hyn gall cael dylanwad ar eu hyder, cymhelliant ac ansawdd ar eu gwaith.

Casgliad

I gasglu, wrth edrych yn feirniadol ar fy ngwersi ymchwil gellir dadlau nad oedd yn hollol lwyddiannus a bod rhaid ystyried eu newid. Gwelir bod y dull o arsylwi yn defnyddio wrth ystyried gweld agwedd person cyntaf o'r hyn sy'n mynd ymlaen yn y gwersi. Er i hyn, nid oedd yn gallu dangos yn glir beth oedd hyder a chymhelliant y disgyblion yn y wers a rai dechrau a'r diwedd am nad oedd yn cymryd i mewn i ystyried agweddau allanol a gall cael effaith ar ei dirywiad neu wellhad. Oherwydd hyn, nid oedd yn bosib dweud beth oedd union hyder neu gymhelliant y disgyblion ac os oedd wedi cael ei effeithio yn ystod y wers.

Er i'r uchod, gwelir bod dull cyfweld a disgyblion yn ddefnyddiol wrth gael mewnwelediad i'w meddylfryd am grwpio ac os oedd yn cael effaith ar eu cymhelliant neu hyder. Ond, gwelir bod pwyntiau negyddol i ddefnyddio cyfweiliadau. Nid yw'r drafodaeth yn llifo wrth siarad efo disgyblion am iddynt fod yn fwy ymwybodol o'r hyn maent yn dweud, yn enwedig o flaen athro. Oherwydd hyn, gwelir bod disgyblion yn ateb, ar y rhan fwyaf, efo un neu ddwy o eiriau ac yn ei weld yn anodd ateb y cwestiynau yn llawn. Ynghyd efo hyn,

gwelir yn anodd geirio cwestiynau nad yw'n arweiniol wrth ystyried y testun o dan ymchwil. Ar y llaw arall, wrth annog disgyblion i ateb yn ehangach gwelir yn hanfodol wrth ddod o hyd i farn disgyblion ar sut mae grwpio yn effeithio nhw fel person sy'n dysgu.

Gwelir bod y BWA yn ffordd addas o ddadansoddi'r ymchwil a chyflwynwyd yn yr ysgolion. Mae hyn yn llwyddiannus am iddo ofyn am deimladau a dadansoddiad o'r hyn maent wedi gweld yn ystod y wers. Er i hyn, gwelir bod wrth wneud y BWA ei fod yn ail-ddweud beth sydd wedi cael ei rhoi i lawr ar y daflen arsylwi ac oherwydd hyn y maent yn dod efo'r un canlyniadau. Pwynt positif o'r BWA yw'r gallu i fynd yn fanylach i'r hyn maent wedi trafod.

Felly, wrth ystyried y canlyniadau i gyd yn yr ymchwil hon, yn fy ysgol nesaf y byddaf yn sicrhau fy mod yn cynllunio gwersi efo dulliau gwahaniaethu er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn buddio o'r wers. Byddaf yn cymryd i mewn i ystyried yr alluoedd gwahanol sydd i'w cael yn mewn grŵp o un gallu am iddo dal i amrywio. Ynghyd efo hyn, byddaf yn ofalus wrth grwpio disgyblion wrth iddynt wneud gwaith grŵp mewn gwersi a sicrhau bod pob disgybl yn gwneud y gwaith ac yn cadw eu cymhelliant a'u hyder i fyny.

Argymhellion

Yr argymhellion y byddaf yn eu gwneud yng ngoleuni fy ymchwil yw ymchwilio i mewn i sut gall strategaethau cael ei chreu er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn buddio o fewn y grwpiau. Bydd hyn yn galluogi i ddisgyblion o wahanol alluoedd tu fewn i bob dosbarth, sydd wedi cael ei grwpio yn barod i mewn i allu, buddio wrth wneud y gwaith. Ynghyd efo hyn, gall yr hyn lliwio ymchwil pellach wrth ystyried y ffactorau allanol sy'n gallu effeithio ar hyder a chymhelliant y disgybl yn y dosbarth a hefyd os mae hyder a chymhelliant disgyblion o fewn grwpiau o allu gwahanol yn cael eu heffeithio gan y testun o dan sylw a'u diddordebau personol.

Bydd yr uchod yn fy helpu i wrth symud ymlaen am iddo roi mewnwelediad i mi, fel athro, i mewn i'r newidiadau a ffactorau sy'n gallu cael effaith ar hyder a chymhelliant disgyblion o fewn alluoedd gwahanol. Bydd hyn yn sicrhau, fy mod yn cyflawni gwersi ac adnoddau sy'n buddio pob disgybl ac sy'n sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud yn y wers.

Os byddaf yn gwneud yr ymchwil hon eto byddaf yn newid rhai agweddau o'r dulliau arsylwad. Ynghyd efo hyn, byddaf yn ehangu'r hyn yr wyf yn ymchwilio gan ychwanegu'r effeithiau posib sy'n gallu cael dylanwad ar hyder a chymhelliant disgyblion wrth iddynt gael eu grwpio yn nhermau eu gallu.

Atodiadau

Balow, Bruce and Curtin, James (1966) 'Ability Grouping of Bright Pupils'. The Elementary School Journal, Vol.66, No. 6. Pp. 321-326

Floyd, C. (1954). *Meeting children's reading needs in the middle grades: A preliminary report*. The Elementary School Journal. 55. 99-103.

Gamoran, A. (2000) High standards: A strategy for equalizing opportunities for learning? pp. 93-126 in R.D. Kahlenberg (ed) *A Nation at Risk: Preserving Public Education as an Engine for Social Mobility*.

Gamoran, Adam (1992) Synthesis of Research/ Is Ability Grouping Equitable? Educational Leadership Vol., 50, No. 2, pp. 11- 17.

Gamoran, Adam (2002). Standards, Inequality & Ability Grouping in Schools.

Hallinan, Maureen T., & Sørensen, Aage B. (1987) Ability Grouping and Sex Differences in Mathematics Achievement. *Sociology of Education*, Vol.60, No. 3, pp. 63 – 72.

Harlen, W. and Malcom, H. (1997) Setting and streaming: A research review, SCRE Publication 137, Edinburgh: Scottish Council for Research in Education.

Ireson, J. & Hallam, S., (2001). *Ability grouping in education*, London: Paul Chapman.

Kerchoff, Alan C. (1986) Effects of Ability Grouping in British Secondary Schools. *American Sociological Review*, Vol. 51, No.6, pp. 842 – 858.

Kulik, J. A. and Kulik, C.- L. C. (1992). *Meta-analytic findings on grouping programs*, *Gifted Child Quarterly*, 36(2), pp. 73–7.

Kutnick, Peter., Blatchford, Peter., & Baines, Ed. (2005) Grouping of pupils in secondary school classrooms: possible links between pedagogy and learning. *Social Psychology of Education*; Springer, 8:349 – 374

Preckel, Franzis, Götz & Frenzel, Anne (2010) Ability grouping if gifted students: Effects on academic self-concept and boredom. *British Journal of Educational Psychology*, 80, 451-472

Rees, D.I., & Brewer, D.J., & Argys, L.M. (2000). How should we measure the effect of ability grouping on student performance? *Economics of Education Review* 19, pp., 17 – 20.

Slavin, Robert E. (1990) Ability Grouping in Secondary Schools: A Response to Hallinan. *Review of Educational Research*, Vol 60., No. 3, pp. 505 – 507.

UCL Institute of Education. (2018). *Setting pupils by attainment unlikely to boost attainment, but specific activity grouping might*. Available at:

<https://www.ucl.ac.uk/ioe/news/2018/sep/setting-pupils-attainment-unlikely-boost-attainment-specific-activity-grouping-might> (Accessed: 20th February 2020)